Cofnodion Cyfarfod Arbennig Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar Nos Fercher y 9fed o Ragfyr 2009, yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7yh

Presennol: Cyng. Christopher Parish, Cadeirydd; Y Faeres y Cyng. Charlotte Leadbeater, Cyng. Edward Thomas, Cyng. Roy Davies
Cyng. Colin Jenkins, Cyng. Ros Bellamy, Cyng. Hugh Towns,
Cyng. Ieuan Gwyn, Cyng. Dawn Wallace, Cyng. Julia Jones.
Mr Roger Phillips, Clerc y Dref,
Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid,
Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Cof 218 / Rhag / 08 Cyllideb Arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2010-11

Yn gyntaf, fe wnaeth y Pwyllgor ystyried y Prosiect Gardd Gymunedol. Fe wnaeth y Cyng. Edward Thomas argymell bod y Pwyllgor yn parhau gyda'r prosiect yn annibynnol i Tywi Afon Yr Oesoedd. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Adolygodd y Pwyllgor ei holl wariant yn drylwyr. Roedd yn rhaid gwneud arbedion sylweddol ym mhob maes, ond byddai'r Cyngor yn parhau i roi cymorth i fudiadau gwirfoddol lleol, yn ogystal â threfnu'r digwyddiadau sydd wedi dod yn rhan arbennig o galendr Llandeilo.

Er mwyn diogelu'r gweithgareddau yma, cynigodd y Cyng. Ieuan Gwyn bod y Pwyllgor yn argymell i'r Cyngor Llawn y dylai'r archebiant ar gyfer 2010 fod yn £ 49,104. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cyng. Colin Jenkins. Cafodd y cynnig hwn ei gario gan benderfyniad y mwyafrif.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.05yh.